



Society of Independent Brewers
Unit 4, the Old Laundry
Fishergreen, Ripon
HG4 1NL

Julie James MS
Minister for Climate Change
Welsh Government
5th Floor, Tŷ Hywel
Cardiff Bay, CF99 1NA

7 July 2022

Dear Minister

Roeddem am dynnu'ch sylw at adroddiad diweddar gan y Grŵp Trawsbleidiol ar Gwrw a Thafarndai yn Senedd yr Alban ar effaith y Cynllun Dychwelyd Ernes (DRS) arfaethedig ar gyfer yr Alban y gellir ei ddarllen yma - [here](#).

Mae gan hyn oblygiadau sylweddol i Gymru a busnesau Cymru, fel ein busnes ni, yn bennaf oherwydd bod cynllun yr Alban ychydig flynyddoedd ar y blaen i'r cynigion ar gyfer Cymru, ac mae'r adroddiad hwn yn cynnig cyfleoedd sylweddol i Aelodau Seneddol ddysgu o'r profiadau yn yr Alban hyd yn hyn, a sicrhau bod y cynllun DRS ar gyfer Cymru'n addas at y diben, ac yn cynrychioli buddiannau gorau'r amgylchedd tra'n cynnig atebion ymarferol a chost-effeithiol i fusnesau.

Efallai eich bod yn ymwybodol bod Joel James AS wedi codi cwestiwn yn y Senedd ar y mater hwn ym mis Mai – mae'r trawsgrifiad o hyn ac ymateb y Prif Weinidog i'w gweld ynghlwm.

Mae'n amlwg o ymateb y Prif Weinidog mai'r DRS Albanaidd arfaethedig sydd wrth wraidd y DRS Cymreig arfaethedig, felly mae'r adroddiad hwn gan y Grŵp Trawsbleidiol yn Senedd yr Alban yn ddarllen hanfodol i bob Aelod Seneddol ddeall yr heriau a wynebir.

Mae'r hyn sy'n dilyn yn ddyfyniad o Grynodedb Gweithredol yr adroddiad CPG:

Rydym wedi canfod canlyniadau anfwriadol a negyddol:

- *i ddefnyddwyr - ym mhris ac ystod y cynhyrchion sydd ar gael wrth i gynhyrchwyr benderfynu a ddylid buddsoddi yn yr Alban o ystyried y costau a'r cymhlethdodau newydd*
- *ar gyfer polisi iechyd - gan fod y blaendal cyfradd wastad o 20c yn ystumio Isafbris Uned*
- *ar gyfer twyll - wrth i werthiannau ar-lein cyfreithlon ddod yn anhyfyw oherwydd rhwymedigaethau cymryd yn ôl*
- *ar gyfer bragwyr llai - wrth i gostau gweithredu ar draws marchnadoedd neilltuedig yn y DU ddod yn anfforddiadwy*

- *ar gyfer yr amgylchedd - wrth i'r effaith heb ei hasesu ar gasgliadau ymyl y ffordd, rhyngweithio â Chyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchydd a chostau llawn casgliadau DRS ddod i'r amlwg*
- *ar gyfer lletygarwch a manwerthu - sy'n wynebu rhwymedigaethau a chostau newydd ar gyfer trin cynwysyddion diodydd tra bod prinder llafur a chostau chwyddiant yn parhau i frathu.*

Mae'r adroddiad hefyd yn datgan:

Rydym i gyd yn dymuno gweld cynllun ymarferol ar gyfer yr Alban ac yn wir ledled y DU, ond rydym wedi clywed tystiolaeth lethol y byddai'n llawer haws gwneud hynny ar sail un cynllun, ar gyfer y DU gyfan. Mae diffygion difrifol wedi'u hamlygu i ni y mae'n rhaid mynd i'r afael â hwy, fel arall ni fydd y cynllun yn llwyddo - a gall fod yn fethiant costus iawn mewn gwirionedd.

Byddem felly'n eich annog chi ac yn wir bob Aelod Seneddol i ddarllen yr adroddiad llawn (gallwch ddarllen yr adroddiad yn llawn yma <https://irp.cdn-website.com/ee27d60f/files/uploaded/DRS%20report%20final.pdf>), ac ystyried y goblygiadau i Gymru o'r pryderon a fynegwyd.

Disgrifir llawer o'r pryderon a godwyd gennym yn flaenorol, yn bersonol ac fel Cymdeithas Fasnach, yn yr adroddiad hwn.

Yn gyffredinol, mae cyfle gwirioneddol yma i Lywodraeth Cymru arwain, a chynnig system ymarferol, amgylcheddol gadarnhaol ac o blaid busnes sy'n gweithio ar raddfa'r DU gyfan.

Hoffem weld DRS Cymreig a fydd yn:

- Arwain y ffordd fel rhan gwbl gydnaws o system y DU gyfan, nad yw'n creu rhwystrau i fasnach, i'r naill gyfeiriad na'r llall dros y ffin
- Amgylcheddol gadarnhaol ac yn effeithiol trwy gydol ei holl fanylion
- Gweithio o fewn fframwaith ac ethos yr Isafbris Uned a hanfodion Iechyd
- Peidio â chynnwys y ffolineb anymarferol ac amgylcheddol amheus sef Cymryd yn Ôl
- Cost-effeithiol ac ymarferol i gynhyrchwyr llai, gyda ffioedd wedi'u teilwra i adlewyrchu'r defnydd o'r cynllun, ac ystyriaeth o gysyniad de minimis ar gyfer y rhai lleiaf.
- Cost-effeithiol ac ymarferol i fanwerthwyr, ag elfen o optio i mewn ar gyfer derbyn dychweliadau ar gyfer safleoedd llai.
- Cost-effeithiol ac ymarferol ar gyfer y Fasnach Ar y Safle.
- Effeithiol ar gyfer awdurdodau lleol sydd â rhwymedigaethau ar gyfer ailgylchu ymyl y ffordd effeithiol.
- Dealladwy ac effeithiol i ddefnyddwyr

Rwyf yn gobeithio y byddwch yn cymryd yr amser i drafod hyn gyda'r Prif Weinidog a Gweinidog Yr Economi Gylchol ac Effeithlonrwydd Adnoddau, a wrthododd, rwyf yn sylwi, yn ddiweddar wahoddiad i gwrdd â James Calder, ein Prif Weithredwr — mae copi o'r llythyr hwn oddi wrth Howard Davies wedi'i atodi, sydd hefyd yn awgrymu bod cynllun yr Alban yn rhan fawr iawn o'r meddylfryd ar gyfer y DRS Cymreig, gan wneud yr adroddiad hwn yn fwyfwy cymhellol.

Byddai unrhyw un ohonom yn barod iawn i drafod unrhyw ran o hyn ymhellach gyda chi, neu mae croeso i chi siarad â swyddog SIBA ar y mater hwn - Will Lockwood (will.lockwood@siba.co.uk).

Yr eiddoch yn gywir,

Buster Grant

Prif Fragwr, Cold Black Label, Brecon Brewing, Lithic Brewing, Pen-y-bont ar Ogwr.
Cadeirydd Rhanbarthol, SIBA Cymru a Gorllewin Lloegr - buster.grant@siba.co.uk

Rob Lilford

Prif Fragwr a Pherchennog, Bragdy Tomos a Lilford, Y Bont-faen
Cyfarwyddwr Rhanbarthol, Cymru a Gorllewin Lloegr - rob.lilford@siba.co.uk

Glenn White

Rheolwr Gyfarwyddwr a Pherchennog, Brew Monster, Caerffili
Cyfarwyddwr Rhanbarthol, Cymru a Gorllewin Lloegr - glenn.white@siba.co.uk

Roy Alkin

Rheolwr Gyfarwyddwr a Pherchennog, Boss Brewing, Abertawe
Cadeirydd Cenedlaethol a Chyfarwyddwr Rhanbarthol, Cymru a Gorllewin Lloegr
roy.alkin@siba.co.uk

Dear Minister,

We wanted to highlight with you a recent report by the Cross Party Group on Beer & Pubs in the Scottish Parliament on the impact of the proposed Deposit Return Scheme (DRS) for Scotland which can be read [here](#).

This has significant implications for Wales and Welsh businesses, such as ours, not least because the Scottish scheme is a couple of years ahead of the proposals for Wales, and this report offers significant opportunities for MSs to learn from the experiences in Scotland so far, and to ensure that the DRS scheme for Wales is fit for purpose, and represents the best interests of the environment whilst offering practical and cost-effective solutions to businesses.

You may be aware that Joel James MS raised a question in the Senedd on this issue in May - the transcript of this and the First Minister's response can be found attached.

It is clear from the First Minister's response that the proposed Scottish DRS is at the heart of the proposed Welsh DRS, so this report from the CPG in the Scottish Parliament is vital reading for all MSs to understand the challenges being faced.

The following is a quotation from the Executive Summary of the CPG report :

We have learnt of unintended and negative consequents:

- ***for consumers - in the price and range of products available as producers determine whether to invest in Scotland considering the new costs and complexities***
- ***for health policy - as the 20p flat-rate deposit distorts Minimum Unit Pricing***
- ***for fraud - as legitimate online sales become unviable due to takeback obligations***
- ***for smaller brewers - as the costs of operating across segregated UK markets become unaffordable***
- ***for the environment - as the unassessed impact on kerbside collections, interaction with Extended Producer Responsibility and full costs of DRS collections become evident***
 - ***for hospitality and retail - faced with new obligations and costs for handling drinks containers while labour shortages and inflationary costs continue to bite.***

The report also states :

We all wish to see a workable scheme for Scotland and indeed throughout the UK, but we have heard overwhelming evidence that it would be far easier to do so on a pan-UK, one scheme basis. We have had serious defects flagged to us which simply have to be addressed, otherwise the scheme will not succeed - and may in fact prove a very costly failure.

We would therefore urge you and indeed all MSs to read the full report (you can read the [report in full here](https://irp.cdn-website.com/ee27d60f/files/uploaded/DRS%20report%20final.pdf) - <https://irp.cdn-website.com/ee27d60f/files/uploaded/DRS%20report%20final.pdf>), and to consider the implications for Wales of the concerns expressed.

Many of the concerns that we have raised previously, both personally and as a Trade Association, are described in this report.

All in all, there is a real opportunity here for the Welsh Government to take a lead, and propose a workable, practical, environmentally positive and pro-business system which works on a pan-UK scale.

We would like to see a Welsh DRS to be :

- Leading the way as a fully compatible part of a pan-UK system, which does not create barriers to trade, in either direction over the border
- Environmentally positive and effective throughout all of its details
- Work within the framework and ethos of the MUP and Health imperatives
- Not include the unworkable and environmentally-suspect folly that is Take-Back
- Cost Effective and practical for smaller producers, with tailored fees to reflect the usage of the scheme, and consideration to a *de minimis* concept for the smallest.
- Cost Effective and practical for retailers, with an element of opt-in for accepting returns for smaller premises.
- Cost Effective and practical for the On-Trade.
- Effective for local authorities who have obligations for effective kerb-side recycling.
- Comprehensible and effective for consumers

I hope you will take the time to discuss this with the First Minister and the Minister for Resource Efficiency and Circular Economy, whom, I note, recently refused an invitation to meet with James Calder, our Chief Executive - a copy of this letter from Howard Davies is attached, which also suggests that the Scottish scheme is very much part of the thinking for the Welsh DRS, making this report ever more compelling.

Any of us would be very willing to discuss any of this further with you, or please feel free to speak with SIBA's officer on this issue - Will Lockwood (will.lockwood@siba.co.uk).

Yours sincerely,

Buster Grant

Head Brewer, Cold Black Label, Brecon Brewing, Lithic Brewing, Bridgend.
Regional Chairman, SIBA Wales & West - buster.grant@siba.co.uk

Rob Lilford

Head Brewer and Owner, Tomos a Lilford Brewery, Cowbridge
Regional Director, Wales & West - rob.lilford@siba.co.uk

Glenn White

MD and Owner, Brew Monster, Caerphilly

Regional Director, Wales & West - glenn.white@siba.co.uk

Roy Alkin

MD and Owner, Boss Brewing, Swansea

National Chairman and Regional Director, Wales & West - roy.alkin@siba.co.uk